# AMERICANWR BALCH

Ni'n mynd yn dwpach
Mae'n dod yn boethach
Anoddach anadlu
Rhaid bod yn rhywbeth
Dw i’n gwybod popeth
Felly dw i eisiau credu

Dympiwch yn y cefnfor
Pisiwch yn y môr
Fel y llywodraethau
Wel, does dim ots 'te
Dweda i…
Awn ni ysbeilio'r bwffe!

*Americanwr balch dw i*
*Dw i'n coelio be’ sy ar y teledu*
*Americanwr balch dw i*
*Rhychwant sylw byr yw fy esgus*
*Dw i'n well na chi, achos —*
*Americanwr dw i (ie...)*

Dewch i fewngofnodi
Y farchnad yn codi
Ti ddim yn gallu colli
Yn yr angladdau
Caf i fy maddau
Yma yng “Ngwlad y Rhydd”

Hei — ‘da fi bŵer
Gwertha fi ddŵr
I lenwi'r pwll nofio
Yn lladd y blaned
Tra’n cael paned
Ffŵl neb dw i — cofio... (achos)

*Americanwr balch dw i*
*Dw i'n coelio be’ sy ar y teledu*
*Americanwr balch dw i*
*Rhychwant sylw byr yw fy esgus*
*Dw i'n well na chi, achos —*
*Americanwr dw i*

Pam ymladd
Dros arian a chariad
Os yw’r byd yn llosgi i lawr?
Triliwnwyr tew
Galwyn ola’r olew
Ar goll cyn y wawr
Ni fydd ein dot glas gwelw’n para...

*Americanwr balch dw i*
*Dw i'n coelio be’ sy ar y teledu*
*Americanwr balch dw i*
*Rhychwant sylw byr yw fy esgus*
*Dw i'n well na chi*
*Does dim ots beth wnewch chi*
*Dw i'n well na chi, achos —*
*Americanwr dw i*
*Americanwr balch dw i*




*Geiriau a cherddoriaeth gan Pawlie*
*© 2018 & 2023 Mr. Potato Head Music*
*℗ 2024 Flying Meatloaf Records*

*Darluniad gan Igor Koutsenko*